YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@ygglangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

20 Medi 21

Annwyl Riant/Gofalwr,

Rydym wedi cael gwybod bod achos o COVID-19 wedi'i gadarnhau ymhlith cymuned yr ysgol.

Gall eich plentyn barhau i ddod i'r ysgol ond, gofynnwn i chi fod yn wyliadwrus rhag ofn y bydd yn dangos symptomau COVID-19. Dyma'r symptomau mwyaf cyffredin:

- tymheredd (dros 37.8°C);
- peswch newydd/parhaus; a/neu
- newid yn y gallu i flasu neu arogli

**Os bydd eich plentyn yn datblygu unrhyw symptomau** COVID-19, peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol ond trefnwch brawf PCR ar unwaith. Os bydd unrhyw un arall yn y cartref yn datblygu symptomau, ni waeth pa mor ysgafn, dylent hwythau hefyd drefnu i gael prawf PCR cyn gynted â phosibl a dilyn y canllawiau yn https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu. Os bydd canlyniad prawf PCR eich plentyn yn bositif, bydd angen iddynt hunanynysu am gyfnod o 10 diwrnod.

Fel ysgol, nid ydym bob amser yn gwybod am amgylchiadau personol teuluoedd ac mae'n bosibl bod oedolion neu blant agored i niwed yn y cartref neu'r grŵp cyswllt estynedig. Drwy roi'r wybodaeth hon i chi, rwy'n gobeithio y bydd yn haws i chi benderfynu a ddylech ymweld â phobl oedrannus neu agored i niwed a diogelu'ch anwyliaid.

**Does dim angen i chi wneud dim ar hyn o bryd**. Rwy'n anfon y llythyr hwn atoch er gwybodaeth yn unig, ond mae'n bosibl y bydd y tîm Profi, Olrhain, Diogelu yn cysylltu â chi i roi rhagor o wybodaeth a chyfarwyddyd os yw'ch plentyn yn gyswllt agos. Os na fyddwch yn clywed ganddynt, gallwch ddal ati fel arfer.

**Does dim rhaid** i neb sydd wedi'i frechu'n llawn (a chyfnod o 14 diwrnod wedi mynd heibio ers y brechlyn olaf) na neb o dan 18 oed, hunanynysu os ydynt wedi bod mewn cysylltiad agos ag achos positif, oni bai bod y tîm Profi, Olrhain, Diogelu yn dweud wrthynt am wneud hynny.

Cewch ragor o wybodaeth a chyngor drwy ffonio llinell gymorth COVID-19: 01443 425020.

Gwyddom nad yw COVID-19, yn gyffredinol, yn effeithio cymaint ar bobl ifanc ag y gall ar aelodau eraill o'r teulu neu'r gymuned. Ond i helpu i gadw pawb arall yn ddiogel, mae rhai pethau y gallwch chi/eich plentyn ei wneud i leihau'r perygl o ledaenu'r haint.

Yn ystod y 10 diwrnod nesaf, rydym yn eich cynghori chi/eich plentyn:

- **Fod yn wyliadwrus rhag ofn y bydd symptomau newydd yn datblygu.**
  Os byddwch chi/eich plentyn yn dechrau teimlo'n wael, ni waeth pa mor ysgafn yw'r symptomau, dylech chi/eich plentyn gadw draw o'r ysgol a chael prawf PCR.

- **Daliwch ati i olchi'ch dwylo'n rheolaidd.**
  Mae hyn dal yn ffordd bwysig o atal nifer o heintiau rhag lledaenu, gan gynnwys COVID-19.



Eco-Sgolion Eco-Schools
Marc Gyrfa Cymru Careers Wales Mark
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Investors in Families Buddsoddwyr mewn Teuluoedd
Llwyddiannus Arweiniol Nerthol

YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

Gwyddom fod y pandemig wedi tarfu'n sylweddol ar bawb y llynedd. Eleni, rydym am sicrhau bod eich plentyn yn bresennol yn yr ysgol mor aml â phosibl, ond rydym hefyd yn awyddus i gadw'n cymunedau'n ddiogel rhag effeithiau COVID-19.

Yn gywir,
Meurig Jones
Prifathro



Eco-Sgolion Eco-Schools
Marc Gyrfa Cymru Careers Wales Mark
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Investors in Families Buddsoddwyr mewn Teuluoedd
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government
LLWYDDIANNUS ARWEINIOL NERTHOL